

**BLAENORIAETH 3: Datblygu darpariaeth yr ysgol o ran lles i anelu i 'Gau'r Bwlch' / CYFRANIAD AT GODI SAFONAU: 'Cau'r Bwlch' mewn cyrhaeddiad rhwng plant sy'n dioddef o 'dlodi cymdeithasol', plant bregus, plant ADY, plant PYD a gweddiill yr ysgol**

<b>CYSWLLT ADRODDIAD HUNAN ARFARNU:</b>	1.1.2 Safonau grwpiau o ddysgwyr	1.2.2 Cyfranogi mewn dysgu	2.1.1 Anghenion dysgwyr a'r gymuned
1.1.1 Canlyniadau a thueddiadau mewn perfformiad	1.1.3 Cyflawniad a chynnydd yn y dysgu	1.2.3 Ymglymiad cymunedol	2.1.2 Darpariaeth ar gyfer y medrau
	1.1.4 Sgiliau	1.2.4 Medrau cymdeithasol	2.2.2 Asesu'r dysgu/Asesu ar gyfer Dysgu
			2.3.2 Gwasanaethau/arweiniad arbenigol

RHESYMAU AM Y FLAENORIAETH	TYSTIOLAETH I GEFNOGI
• Angen datblygu systemau tracio cynnydd grwpiau o blant – PYD a MAT. Datblygu gwell systemau o adnabod effaith targedu ac effaith gwario arian GAD	CANFYDDIADAU AHA
• Angen cryfhau gweithdrefnau pennu targedau, asesu a thracio.	BLAENORIAETHAU GWE
• Angen targedu i wella perfformiad disgyblion PYD ar y lefelau uwch.	BLAENORIAETHAU GWE
• Angen ymdrechu i leihau y bwlch rheolaidd rhwng cyrhaeddiad Merched a Bechgyn ar ddiwedd Blwyddyn 6– Lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch	DATA CRAIDD 2014-15
• Angen gwella ymddygiad disgyblion - yn ystod amser chwarae ac amser cinio a lleihau nifer gwaharddiadau.	CANFYDDIADAU AHA / HOLIADURON PLANT
• Angen datblygu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddulliau ymyraethau effeithiol gan eu rhoi ar waith mewn dull amserol	BLAENORIAETHAU GWE
• Angen datblygu systemau annog presenoldeb ymhellach – targedu grwpiau a cysylltu ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb	CANFYDDIADAU AHA
• Yr ysgol yn y 4edd chwarter o ran presenoldeb am 2014-15 (93.7%)	MEINCNODAU PRESENOLDEB
• Angen ymateb i'r newidiadau i'r drefnu ADY	BLAENORIAETH ALL

CAMAU GWEITHREDU	AHA	M.P.LI. / DEILLIANNAU	AMSERLEN / MONITRO	CYFRIFOLDEB	COSTAU
<b>1.) Datblygu darpariaeth Cwricwlwm Amgen</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu cysylltiadau gyda Choleg Meirion Dwyfor i gynnig profiadau addysg gwahanol i blant Blwyddyn 6 yn flynyddol. Annog disgyblion nad ydynt mor awyddus i ddysgu yn y dosbarth i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd mewn sefyllfaoedd gwahanol (gan gynnwys bechgyn yn benodol). Datblygu gwybodaeth ar y ddarpariaeth amgen sydd ganddyn nhw i fyfyrwyr. Datblygu cydweithio gyda'r Coleg i gynnig sesiynau tebyg i blant Cynradd.</li> <li>Dangos cysylltiadau Llythrennedd a Rhifedd yn y gweithgareddau.</li> <li>Monitro agwedd y plant tuag at weithgareddau sy'n gysylltiedig a Chwricwlwm Amgen i asesu effaith ar ymglymiad i ddysgu.</li> </ul>	1.1.4 1.2.2 1.2.3 1.2.4 2.1.1 2.1.2	<ul style="list-style-type: none"> <li>Plant yn gallu cysylltu gwaith ysgol (Llythrennedd a Rhifedd yn benodol) gyda sefyllfaoedd 'real' bywyd go iawn a gweld gwerth mewn addysg.</li> <li>Holiaduron yn dangos bod 80% o blant wedi eu hysgogi ac bod y gweithgareddau wedi cael effaith positif ar ymglymiad i ddysgu.</li> </ul>	<p>Cynllun cytunedig am y flwyddyn gyda CMD yn ei le erbyn wythnos 28.09.15</p> <p>Holiaduron i'r plant i gasglu gwybodaeth cychwynnol am gymhelliant i weithio a dyheadau gyrfa erbyn wythnos 07.03.15</p> <p>Holiadur ar ddiwedd y prosiect i adnabod effaith erbyn wythnos 04.07.15</p>	PENNAETH / DIRPRWY BENNAETH  ATHRAWON BL6	Costau teithio i CMD Pwllheli, Dolgellau a Choleg Menai = £700
<b>2.) Cryfhau cysylltiadau gyda rhieni / arfogi rhieni i helpu plant i wella eu sgiliau:</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu cynllun 'Llofnod Dysgu Teulu' yn yr ysgol fel cymorth i rhieni adnabod cryfderau a manau i wella o ran cefnogi addysg eu plant. Cyplysu defnydd LIDT gyda phrosiect Arweinyddiaeth Ganol</li> </ul>	1.1.2 1.1.3 1.1.4 1.2.3	<ul style="list-style-type: none"> <li>75% o rieni sy'n cael gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd 'Llofnod Dysgu Teulu' yn mynychu.</li> <li>Holiaduron rhieni yn dilyn cyfarfodydd 'Llofnod Dysgu Teulu' yn nodi bod 85% ohonynt wedi gweld gwerth cymryd rhan</li> </ul>	<p>Trefnu cydweithio gydag ysgolion sydd a phrofiad o weithredu'r LIDT erbyn wythnos 07.09.15</p> <p>Cyflwyno cefndir LIDT i'r</p>	PENNAETH  PENNAETH /	Costau'r LIDT - £1000  Rhyddhau i

<p>Llythrennedd Corfforol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Defnyddio data ‘Llofnod Dysgu Teulu’ i dargedu unrhyw duediadau grwpiau o rieni i gynnig cefnogaeth pellach iddynt i gefnogi addysg eu plant. Defnyddio Llythrennedd Corfforol fel arf i ddatblygu gwell cydweithio rhwng y plant a’u rhieni. Cydweithio ar y prosiect LIDT/Llyth Corff Ysgol i Ysgol (gydag Ysgol Maesincla).</li> <li>Parhau i ddatblygu systemau nosweithiau rhieni i gynnwys rhieni yn y drefn o osod targedau, yn nodi rôl y rieni a sut i gefnogi yn y cartref.</li> <li>‘Tric a Chlic’ – parhau i gynnig cyflwyniad i’r rhieni CSD a CS1 ar sut i ddatblygu sgiliau ffonog a darllen cynnar eu plant. Arfogi’r rhieni gyda’r wybodaeth i allu cynorthwyo eu plant gartref.</li> <li>Sesiwn i rieni newydd i’r Cyfnod Sylfaen i egluro ethos a’r theori tu ôl ‘dysgu drwy brofiadau’</li> </ul>		<p>ac wedi addasu eu darpariaeth i gefnogi addysg eu plant.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>90% o rieni yn mynychu nosweithiau rhieni yn dymhorol ac yn cefnogi addysg eu plant adref drwy ymarfer eu targedau gyda hwy adref.</li> <li>Holiaduron rhieni Cyfnod Sylfaen (tymor yr haf) yn nodi bod 75% ohonynt yn gwneud defnydd o’r offer ‘Tric a Chlic’ i rieni adref i helpu datblygu ffonog a darllen yn rheolaidd.</li> <li>Rhieni yn ymwybodol o ethos y Cyfnod Sylfaen ac yn cefnogi eu plant adref.</li> </ul>	<p>athrawon erbyn 07.09.15</p> <p>Cynnal cyfarfodydd gyda’r teuluoedd erbyn wythnos 11.01.16</p> <p>Sesiynau Tric a Chlic i rieni CSD erbyn wythnos 14.03.16</p> <p>Cyflwyniad i rieni Meithrin newydd erbyn wythnos 20.06.16</p>	<p>FfH</p> <p>FfH</p> <p>PENNAETH</p> <p>CYDLYNYDD CS</p> <p>PENNAETH</p>	<p>gyfarfodydd cydweithio ysgolion – 3 x £100 = £300</p> <p>Costau Sian Vaughan (Tric a Chlic) - £350</p> <p>Uwchraddio ardaloedd tu allan Cyfnod Sylfaen – £3,000</p>
<p><b>3.) Cryfhau systemau tracio a thargedu plant PYD a MAT</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod holl blant PYD sydd wedi perfformio’n is na sgôr safonol o 100 yn y Profion Cenedlaethol o B2 i B6 yn cael eu hadnabod a’u targedu’n rheolaidd</li> <li>Athrawon yn bwydo asesiadau i Incerts yn rheolaidd ac yna’r UDRh yn dadansoddi’r asesiadau (gan gynnwys asesiadau profion hefyd) i adnabod gwahanol grwpiau o blant.</li> <li>Targedau unigol yn cael eu pennu ar gyfer pob unigolyn a grwpiau targed yn cael eu hadnabod. Cymorth ychwanegol un i un/o fewn grwpiau bychan i’r disgyblion sydd heb gyrraedd S.S.100 neu yn tangyflawni gan ddefnyddio cynllun ‘Tric a Chlic’, dyddiaduron darllen, Trugs a Dyfal Donc (llythrennedd), Dyfal Donc Rhifedd a Numicon (rhifedd).</li> <li>Ymuno a chynllun peilot Prifysgol Bangor ‘Headsprout’ i dargedu sgiliau darllen plant ePYD (rhaglen ar-lein i dargedu sgiliau darllen Saesneg).</li> <li>Amserlennu cyfnodau i dargedu plant MAT yn CA2 i sicrhau eu bod yn cyrraedd y lefelau uwch erbyn diwedd Blwyddyn 6. Defnyddio cyfnodau rhydd yr athrawes GAD (9:00am i 9:30am) i dargedu’r disgyblion yma o ran llythrennedd a rhifedd.</li> </ul>	<p>1.1.1</p> <p>1.1.2</p> <p>1.1.3</p> <p>2.2.2</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sgorau safonol y plant sy’n cael eu targedu yn codi 10+ mewn cyfnod targedu o hanner tymor (6 wythnos).</li> <li>Profion Cenedlaethol yn dangos sgorau plant PYD wedi gwneud cynnydd gyda’r mwyafrif yn cyrraedd 85+ ar ddiwedd y flwyddyn.</li> <li>‘Headsprouts’ - targedu disgyblion B13 a B14 - cyrhaeddiad sgiliau darllen cohort PYD yn gwella a sgorau safonol y disgyblion sydd wedi targedu dros 85 gyda canlyniad yr ysgol yn uwch na’r canolrif meincnodau.</li> <li>Canrannau plant sy’n cyrraedd L5+ ar ddiwedd CA2 yn gosod yr ysgol uwch ben y canolrif yn flynyddol o ran y meincnodau cenedlaethol ac yn cymharu’n ffaithiol gyda’r ysgolion teulu.</li> </ul>	<p>Pob athro/athrawes i adnabod grwpiau targed boreol Llythrennedd a Rhifedd a mapio’r gynhaliath am hanner tymor erbyn wythnos 28.09.15</p> <p>Asesu sgorau disgyblion PYD yn y profion. Sefydlu grwpiau targed PYD i dderbyn cynhaliath cymhorthydd erbyn wythnos 28.09.15</p> <p>Cynnal profion mewnol Darllen a Rhifedd ar ddiwedd tymor i adnabod cynnydd grwpiau targed erbyn wythnos 14.12.15 (ac yna bob diwedd tymor)</p> <p>Asesu canlyniadau profion Saesneg B3/B4 - 85+ yn uwch na’r canolrif meincnodau – Medi 2016</p>	<p>HOLL ATHRAWON</p> <p>UDRh</p> <p>DIRPRWY BENNAETH</p> <p>CYMORTHYDD GRWPIAU TARGED</p> <p>HOLL ATHRAWON</p> <p>UDRh</p>	<p>Amser ychwanegol i gymorthydd i gyflawni gwaith targedu grwpiau PYD - £5,000</p> <p>Cyfraniad i gynllun ‘Headsprouts’ - £900</p>
<p><b>4.) Parhau i dargedu presenoldeb gan ddatblygu arferion da o sicrhau presenoldeb uchel:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ar y cyd gyda chynrychiolydd Presenoldeb y</li> </ul>		<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfartaledd presenoldeb plant 5oed i 11oed yr ysgol yn codi’r ysgol yn uwch na’r canolrif o ran y meincnodau.</li> </ul>	<p>Cyfarfod UDRh a cynrychiolydd Corff Llywodraethol i gwblhau</p>	<p>PENNAETH</p> <p>UDRH</p>	<p>Dim</p>

<p>Llywodraethwyr, defnyddio offeryn hunanwerthuso presenoldeb i adnabod materion sydd angen sylw yn yr ysgol.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r UDRh i drafod presenoldeb/absenoldeb i asesu unrhyw broblemau presenoldeb – e.e. oes gwahaniaeth presenoldeb PYD a dim PYD ac i adnabod ystadegau am y mathau gwahanol o bresenoldeb (e.e. gwyliau, iechyd, absenoldeb rheolaidd) er mwyn targedu plant/teuluoedd penodol.</li> <li>Sefydlu system gadarn o gysylltu gyda rhieni os oes disgybl yn absennol (cyswllt diwrnod cyntaf absenoldeb).</li> <li>Parhau i weithredu'r 'Wal Wobrwyo Presenoldeb' yn fisol i annog y plant i fod eisiau dod i'r ysgol.</li> <li>Cydweithio gydag ysgolion y Dalgylch i sefydlu canllawiau gwyliau yn ystod tymor ysgol. Ffurfioli'r dull i rieni o orfod gofyn am ganiatâd i fynd ar wyliau.</li> <li>Datblygu i dargedu plant sydd yn a phresenoldeb is na 95% (90% y llynedd) drwy barhau gydag arferion da o ddefnyddio SIMS i gofnodi absenoldebau ac adnabod pwy i dargedu. Llythyru unrhyw blentyn sydd a phresenoldeb o dan 95% yn dymhorol i geisio annog llai o absenoldebau.</li> <li>Datblygu cysylltiadau cryfach gyda'r Swyddog Lles, ddilyn canllawiau arfer dda a llunio cynlluniau gweithredu i unigolion sydd o dan 90%.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dim gwahaniaeth amlwg rhwng cyfartaledd presenoldeb plant PYD a gweddill plant yr ysgol.</li> <li>Llai o rieni yn dewis mynd a plant ar wyliau yn ystod amser ysgol.</li> <li>Bron pob un o'r plant oedran statudol â phresenoldeb uwch na 95% oni bai bod ganddynt resymau dilys – e.e. problemau iechyd</li> </ul>	<p>offeryn hunan werthuso ac adnabod manau i wella erbyn wythnos 23.11.15</p> <p>Cyfarfodydd wythnosol yr UDRh i gynnwys presenoldeb ar yr agenda yn fisol o fis Medi 2015 ymlaen.</p> <p>Trefn cyswllt absenoldeb diwrnod cyntaf yn ei le erbyn wythnos 02.11.15</p> <p>Canllawiau cytunedig gwyliau ysgolion Dalgylch Glan-y-Môr yn ei le erbyn wythnos 11.01.16</p> <p>Llythyr i rieni disgyblion sydd a phresenoldeb yn llai na 95% am y tymor i fynd allan diwedd pob tymor.</p>	<p>UDRH</p> <p>PENNAETH / SWYDDOG GWEINYDDOL</p> <p>PENNAETH</p> <p>PENNAETH / SWYDDOG GWEINYDDOL</p>	
<p><b>5.) Datblygu gofal yr ysgol dros blant di-freintiedig y dref:</b></p> <p><b>Clwb Plant ar ôl ysgol am ddim:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cydweithio gyda 'Clybiau Plant Cymru' i gynnal Clwb ar ôl Ysgol o 3:01yh – 5:00yh.</li> <li>Ariannu llefydd i blant PYD drwy'r grant GAD fel nad oes angen iddynt dalu. Drwy godi ar y plant nad ydynt yn PYD i fynychu'r Clwb, mae modd cadw arian wrth gefn i allu cynnal llefydd am ddim neu i blant PYD.</li> <li>Darparu lluniaeth iach – ffrwythau, llefrith, tost</li> </ul> <p><b>Clwb Gwaith Cartref</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Amserlennu clwb gwaith cartref i ddsbarthiadau CA2 – 6 dosbarth, un prynhawn yr wythnos i bob dosbarth.</li> <li>Mynediad i adnoddau'r ysgol i wneud eu gwaith cartref – rhyngrwyd, gliniaduron, cyfrifiaduron, iPads, llyfrau gwybodaeth.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gofal llawn ('All Round Care') am ddim i blant difreintiedig y dref o 8:10yb tan 5:00yh .</li> <li>80% o'r plant PYD yn gwneud defnydd o'r ddarpariaeth, yn cwblhau gwaith cartref yn rheolaidd ac yn cael mynediad i dechnoleg gwybodaeth tu allan i oriau'r ysgol.</li> </ul>	<p>Holiadur rhieni eleni i gynnwys cymal am ddefnyddioldeb y Clwb Brechwast a Clwb Cymerau – erbyn wythnos 07.12.15</p> <p>Sefydlu clybiau gwaith cartref rheolaidd ym mhob dosbarth CA2 erbyn wythnos 04.01.16</p> <p>Monitro defnydd y clybiau gwaith cartref ar ddiwedd y flwyddyn – nifer sy'n defnyddio'r clybiau a'r canran sy'n blant PYD – erbyn wythnos 06.06.16</p>	<p>PENNAETH</p> <p>ATHRAWON CA2</p> <p>UDRH</p>	<p>Cyflogi 3 goruchwylydd i blant PYD (£8 yr awr am 2.5awr y dydd) am 190 diwrnod ysgol mewn flwyddyn = £11,400</p>

<p><b>6.) Lleihau maint dosbarthiadau yn CA2 fel bod plant PYD yn derbyn addysg mewn grwpiau llai drwy weithredu'r canlynol:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Lleihau cyfartaledd nifer dosbarthiadau B5/B6 o 32 i 24 ar gyfer gwersi Llythrennedd a Rhifedd. Cyflogi aelod ychwanegol staff dysgu i weithio yn rhan amser (0.5) efo grwpiau targed fydd yn cynnwys plant prydau am ddim. Plant PYD nad ydynt yn haen isaf ac yn y grŵp yma yn elwa o addysg mewn dosbarthiadau llai.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Asesiadau Incerts yn dangos 75% o'r plant B5 a B6 yn gwneud naid uwch na'r disgwyl mewn blwyddyn o ran Llythrennedd a Rhifedd (CA2 = naid yn fwy na 0.5 lefel cwricwlaidd)</li> <li>Canrannau plant sy'n cyrraedd L4+ a L5+ ar ddiwedd CA2 yn gosod yr ysgol uwch ben y canolrif yn flynyddol o ran y meincnodau cenedlaethol ac yn cymharu'n ffafriol gyda'r ysgolion teulu.</li> <li>Dim gwahaniaeth amlwg o flwyddyn i flwyddyn yng nghanlyniadau plant PYD a plant nad ydynt yn PYD</li> </ul>	<p>Cynnal profion mewnol Darllen a Rhifedd ar ddiwedd tymor i adnabod cynnydd grwpiau targed erbyn wythnos 14.12.15 (ac yna bob diwedd tymor)</p>	<p>HOLL ATHRAWON</p>	<p>Cyflogi athrawes GAD 0.5 = £16,000</p>	
<p><b>7.) Datblygu darpariaeth i adnabod a chefnogi plant bregus</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sefydlu cynllun holiadur 'PASS' i blant o 4 i 11 oed i fonitro agwedd y plant tuag at ysgol, at waith, at fywyd o dan 9 categori gwahanol. Targedu unigolion a grwpiau sy'n sgorio'n isel o fewn y categorïau gan ddefnyddio adnoddau'r cynllun.</li> <li>Cydweithio gydag ysgolion eraill i adnabod arferion da o ran cefnogi plant ymddygiad anodd/problemau emosiynol.</li> <li>Cydweithio Ysgol i Ysgol (gydag Ysgol Maesincla ac Ysgol Yr Hendre) a GwE ar beilota cynllun ymddygiad 'Pivotal Education' – cynllun sy'n dysgu disgyblion sut i ymddwyn yn briodol ac yn dysgu staff sut i ymateb yn briodol ac yn gyson i ymddygiad heriol. Pennu 2 aelod o staff i fynychu'r hyfforddiant i allu hyfforddi gweddill y gweithlu i ddilyn y cynllun a'i roi ar waith yn ystod y flwyddyn.</li> <li>Datblygu cynllun 'Seasons' ymhellach i gynnwys mwy o blant sydd wedi profi colled yn eu bywydau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Plant sydd ac agweddau negyddol at fywyd neu at ysgol yn cael eu hadnabod yn fuan drwy'r holiadur 'PASS'.</li> <li>Canlyniadau ail holiadur 'PASS' yn nodi bod agwedd tuag at waith y plant uchod wedi gwella ac yn dangos bod y sesiynau targedu yn gweithio.</li> <li>Cysylltiadau cadarn gydag ysgolion eraill sydd ac arferion da o gefnogi plant ymddygiad/problemau emosiynol yn datblygu gallu'r ysgol i gefnogi'r plant yma.</li> <li>Cynllun ymddygiad Pivotal Education yn gwreiddio drwy'r ysgol fel nad oes unrhyw waharddiad yn ystod 2015-16</li> <li>Cynllun 'Seasons' yn digwydd 2 waith y flwyddyn gyda hyd at 18 o ddisgyblion y flwyddyn yn derbyn cefnogaeth i ddelio gyda colled yn eu bywydau.</li> </ul>	<p>Archebu'r cynllun PASS a rhoi cyflwyniad i'r holl athrawon ar ei gynnwys erbyn wythnos 07.09.15</p> <p>Y plant i gwblhau'r holiadur PASS erbyn wythnos 12.10.15</p> <p>Sefydlu rhwydwaith o gydweithio cadarn a rhannu arferion da gan gyfarfod yn dymhorol.</p> <p>2 aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant Pivotal Education erbyn 21.03.15</p> <p>Holl staff wedi eu hyfforddi gyda'r cynllun Pivotal Education ar waith o 18.04.16 ymlaen.</p> <p>Sesiwn grŵp 1 'Seasons' erbyn wythnos 16.11.15 gyda'r 2il erbyn 18.04.16</p>	<p>PENNAETH HOLL ATHRAWON  PENNAETH DIRPRWY BENNAETH  PENNAETH</p>	<p>Holiadur PASS – £1,200</p> <p>Rhyddhau i gyfarfodydd cydweithio ysgolion – 3 x £100 = £300</p> <p>Hyfforddi Pivotal Education = £1800</p>	
				<p><b>COSTAU</b></p> <p>AWG £4,000</p> <p>GGA £3,750</p> <p>GAD £34,200</p> <p><b>CYFANSWM £41,950</b></p>	

DANGOSYDDION LLWYDDIANT	TYSTIOLAETH
<p><b>1.) Datblygu darpariaeth Cwricwlwm Amgen</b></p> <p>a) Plant wedi eu hysgogi, y gweithgareddau wedi cael effaith bositif ar ymglymiad i ddysgu am bod y plant yn gallu cysylltu gwaith ysgol (Llythrennedd a Rhifedd yn benodol) gyda sefyllfaoedd 'real' bywyd go iawn a gweld gwerth mewn addysg.</p>	<p>a) Holiadur ar ddiwedd y prosiect yn adnabod effaith bositif erbyn wythnos 04.07.15</p>
<p><b>2.) Cryfhau cysylltiadau gyda rhieni / arfogi rhieni i helpu plant i wella eu sgiliau:</b></p> <p>a) 75% o rieni sy'n cael gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd 'Llofnod Dysgu Teulu' yn mynychu. 85% o'r rhieni yma wedi gweld gwerth cymryd rhan ac wedi addasu eu darpariaeth i gefnogi addysg eu plant.</p> <p>b) 90% o rieni yn mynychu nosweithiau rhieni yn dymhorol ac yn cefnogi addysg eu plant adref drwy ymarfer eu targedau gyda hwy adref.</p> <p>c) Rhieni yn cefnogi addysg eu plant gartref o oedran ifanc ymlaen - ymwybodol o ethos y Cyfnod Sylfaen er mwyn cefnogi eu plant adref (CSM ymlaen) ac yn gwneud defnydd o'r offer 'Tric a Chlic' i rieni adref i helpu datblygu ffoneg a darllen yn rheolaidd (CSD ymlaen)</p>	<p>a) Awdit effaith LIDT erbyn wythnos 22.02.16</p> <p>b) Holiadur yn dilyn nosweithiau rhieni - wythnos 9.11.15</p> <p>c) Holiadur Tric a Chlic i rieni CSD erbyn wythnos 25.04.16 Cyflwyniad i rieni Meithrin newydd erbyn wythnos 20.06.16</p>
<p><b>3.) Cryfhau systemau tracio a thargedu plant PYD a MAT</b></p> <p>a) Systemau tracio a thargedu cadarn - sgorau safonol y plant sy'n cael eu targedu yn codi 10+ mewn cyfnod targedu o hanner tymor (6 wythnos).</p> <p>b) Profion Cenedlaethol yn dangos sgorau plant PYD wedi gwneud cynnydd gyda'r mwyafrif yn cyrraedd 85+ ar ddiwedd y flwyddyn.</p> <p>c) 'Headsprouts' - targedu disgyblion BI3 a BI4 - cyrhaeddiad sgiliau darllen cohort PYD yn gwella a sgorau safonol y disgyblion sydd wedi targedu dros 85 gyda canlyniad yr ysgol yn uwch na'r canolrif meincnodau.</p> <p>d) Canrannau plant sy'n cyrraedd L5+ ar ddiwedd CA2 yn gosod yr ysgol uwch ben y canolrif yn flynyddol o ran y meincnodau cenedlaethol ac yn cymharu'n ffafriol gyda'r ysgolion teulu.</p>	<p>a) Profion mewnol Darllen a Rhifedd ar ddiwedd tymor i adnabod cynnydd grwpiau targed erbyn wythnos 14.12.15 (ac yna bob diwedd tymor)</p> <p>b) Adroddiad Canlyniadau Profion Cenedlaethol – Medi 2016</p> <p>c) Adroddiad Canlyniadau Profion Saesneg B3/B4 – Medi 2016 Data Prifysgol Bangor fel rhan o'r cynllun</p> <p>d) Adroddiad dadansoddi data Diwedd CA – Medi 2016</p>
<p><b>4.) Parhau i dargedu presenoldeb gan ddatblygu arferion da o sicrhau presenoldeb uchel:</b></p> <p>a) Cyfartaledd presenoldeb plant 5oed i 11oed yr ysgol yn codi'r ysgol yn uwch na'r canolrif o ran y meincnodau.</p> <p>b) Dim gwahaniaeth amlwg rhwng cyfartaledd presenoldeb plant PYD a gweddill plant yr ysgol.</p> <p>c) Bron pob un o'r plant oedran statudol â phresenoldeb uwch na 95% oni bai bod ganddynt resymau dilys – e.e. problemau iechyd</p>	<p>a) Cymhariaeth Data Ffynnon</p> <p>b) Adroddiad tymhorol yr UDRh i'r Corff Llywodraethu</p> <p>c) Cofnodion cyfarfodydd UDRh – yn rhan o'r agenda yn fisol.</p>
<p><b>5.) Datblygu gofal yr ysgol dros blant di-freintiedig y dref:</b></p> <p>a) Gofal llawn ('All Round Care') am ddim i blant difreintiedig y dref o 8:10yb tan 5:00yh .</p> <p>b) 80% o'r plant PYD yn gwneud defnydd o'r ddarpariaeth, yn cwblhau gwaith cartref yn rheolaidd ac yn cael mynediad i dechnoleg gwybodaeth tu allan i oriau'r ysgol.</p>	<p>a) Holiadur rhieni - defnyddioldeb y Clwb Brecwast a Clwb Cymerau – erbyn wythnos 07.12.15</p> <p>b) Monitro defnydd y clybiau gwaith cartref ar ddiwedd y flwyddyn – nifer sy'n defnyddio'r clybiau a'r canran sy'n blant PYD – erbyn wythnos 06.06.16</p>
<p><b>6.) Lleihau maint dosbarthiadau yn CA2 fel bod plant PYD yn derbyn addysg mewn grwpiau llai drwy weithredu'r canlynol:</b></p> <p>a) Plant B5 a B6 yn gwneud naid uwch na'r disgwyl mewn blwyddyn o ran Llythrennedd a Rhifedd. 75% ar drywydd i wneud naid uwch na'r disgwyl (naid yn fwy na 0.5 lefel cwricwlaidd).</p> <p>b) Canrannau plant sy'n cyrraedd L4+ a L5+ ar ddiwedd CA2 yn gosod yr ysgol uwch ben y canolrif yn flynyddol o ran y meincnodau cenedlaethol ac yn cymharu'n ffafriol gyda'r ysgolion teulu.</p> <p>c) Dim gwahaniaeth amlwg o flwyddyn i flwyddyn yng nghanlyniadau plant PYD a plant nad ydynt yn PYD</p>	<p>a) Asesiadau Incerts tymhorol Adroddiad dadansoddi data Diwedd CA – Medi 2016</p> <p>b) Adroddiad dadansoddi data Diwedd CA – Medi 2016</p> <p>c) Adroddiad dadansoddi data Diwedd CA – Medi 2016</p>
<p><b>7.) Datblygu darpariaeth i adnabod a chefnogi plant bregus</b></p> <p>a) Canlyniadau ail holiadur 'PASS' yn nodi bod agwedd y plant sydd a theimladau negyddol at fywyd neu at ysgol a gwaith wedi gwella ac yn dangos bod y sesiynau targedu yn gweithio.</p> <p>b) Cysylltiadau cadarn gydag ysgolion arferion da o gefnogi plant ymddygiad/problemau a cynllun ymddygiad Pivotal Education yn gwreiddio drwy'r ysgol fel nad oes unrhyw waharddiad yn ystod 2015-16 ac ymddygiad plant heriol ar draw yr ysgol yn gwella.</p> <p>c) Cynllun 'Seasons' - hyd at 18 o ddisgyblion y flwyddyn yn derbyn cefnogaeth i ddelio gyda colled yn eu bywydau ac yn gweld gwerth o fod yn rhan o'r sesiynau.</p>	<p>a) Cymharu holiadur 1af ac 2il holiadur PASS - wythnos 25.04.16</p> <p>b) Holiaduron blynyddol disgyblion Awdit gwaharddiadau 2015-16</p> <p>c) Holiadur diwedd y cynllun 'Seasons'</p>

